

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

# Ymddiriedolwr

## Pecyn Recriwtio

**Helpu i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur yn bwysig**




# Amdanom ni

**Rydym yn elusen fechan gyda syniadau mawr** Rydym yn credu bod gan bawb ran i'w chwarae yn adferiad byd natur. Ni yw'r unig sefydliad yng Ngogledd Cymru sy'n gweithio i warchod a gwella bywyd gwyllt a llefydd gwyllt ledled y rhanbarth. Drwy ein gwaith gyda busnesau, sefydliadau a'r cyhoedd rydym yn ysgogi eraill ar draws y rhanbarth a gweddill y DU i weithredu dros fywyd gwyllt. Fel elusen gofrestredig, rydym yn cael ein cefnogi gan fwy na 9,500 o aelodau, ac yn rhan o fudiad o 46 o Ymddiriedolaethau Natur sydd ag aelodaeth gyfunol o fwy nag 800,000.

Ein pwrpas yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae natur yn bwysig. Gyda chefnogaeth amhrisiadwy gwirfoddolwyr ac aelodau, rydym yn rheoli 35 o warchodfeydd natur yng Ngogledd Cymru, ac mae gennym uchelgais i wyrdroi'r dirywiad mewn byd natur. Rydym yn gweithio gyda pherchnogion tir i ddiogelu a chysylltu safleoedd bywyd gwyllt ar draws 6 sir Gogledd Cymru ac i ysbrydoli cymunedau lleol a phobl ifanc i ofalu am fywyd gwyllt lle maent yn byw.

Mae ein holl waith yn seiliedig ar ein gwerthoedd. Mae gennym gariad at werth cynhenid byd natur, rydym yn gweithio gyda brwdfrydedd a phwrpas, mae ein harloesi yn seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn gweithredu gyda pharch ac integriti.

# Disgrifiad rôl

**Teitl y swydd:** Ymddiriedolwr

**Graddfa Cyflog:** Rôl wirfoddol

**Yn atebol i:** Y Cadeirydd

**Trosolwg:** Sicrhau bod strategaeth Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cael ei sbarduno ymlaen

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**
Fel rhan o'r bwrdd o ymddiriedolwyr, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cytuno ar bolisïau priodol a chraffu ar berfformiad yn erbyn nodau cytûn
- Hyrwyddo Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'i gwerthoedd, gan greu diwylliant o arloesi lle caiff risgiau eu rheoli'n briodol
- Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth a'i gweledigaeth ar lwyfan lleol, Cymru a'r DU
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethu, cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill
- Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio ei hadnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon i gyflawni ei gweledigaeth a'i chenhadaeth
- Defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau er budd gorau'r Ymddiriedolaeth
- Sicrhau bod Strategaethau, polisïau a safbwyntiau Ymddiriedolaethau Natur y DU yn cael eu hystyried
- Penodi'r Prif Weithredwr a monitro ei berfformiad



JASON SAMUELS

# Pwy rydym yn chwilio amdano?

**Pobl â phrofiad o'r canlynol:**

- Ecoleg ddaearol a / neu forol
- Newid hinsawdd
- Ymgyrchu / lobïo / eiriolaeth
- Cyllid gwyrdd
- Iechyd / lles
- Gwyddor ymddygiadol
- Digidol a TG
- Codi arian
- Marchnata a chyfathrebu
- Rheoli eiddo a stadau

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a chydlynol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau fel y nodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb o fewn diwylliant o ddilysrwydd: gwerthfawrogi ein pobl a hybu ymddiriedaeth a grymuso.

Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn wynebu rhwystrau wrth geisio ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth. Rydym yn ymdrechu i gynnig cyfleoedd cyfartal i bawb deimlo bod croeso iddynt ac y gallant ymwneud â ni, yn enwedig pobl ifanc 18 i 25 oed, lleiafrifoedd ac unigolion ag anableddau.

# Ymrwymiad

- Mynychu 6 chyfarfod bwrdd (a gynhelir ym Mangor, Conwy neu ar-lein) a CCB bob blwyddyn
- Mynychu a / neu gadeirio is-grwpiau priodol yn ôl yr angen
- Paratoi ar gyfer pob cyfarfod drwy ymgyfarwyddo â'r agenda a'r materion i'w trafod
- Hyrwyddo a hysbysu eraill am waith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'i rhanddeiliaid cysylltiedig
- Cynnal, hwyluso neu gymryd rhan yn nigwyddiadau hyfforddi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru fel y bo'n briodol
- Mynychu cyfarfodydd, digwyddiadau ac achlysuron priodol ar ran yr Ymddiriedolaeth

# Beth fyddwch yn ei gynnig i ni?

Fel Ymddiriedolwr bydd eich egni, eich angerdd a'ch brwdfrydedd dros fyd natur a bywyd gwyllt yn cyfrannu cymhelliant a chyfeiriad i'n gwaith. Rydym yn rhoi gwerth cyfartal ar brofiadau proffesiynol a phrofiadau byw gan y rhai sy'n dymuno hyrwyddo natur a'r rôl y gall ei chwarae mewn ailgysylltu ein cymunedau â mannau gwyrdd. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein Bwrdd yn fan diogel i Ymddiriedolwyr ac rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sydd wedi cael eu tanwasanaethu ac sydd wedi'u heithrio'n hanesyddol o'r sector treftadaeth naturiol. Byddwch yn gallu hawlio costau teithio ar gyfer cyfarfodydd. Hyd at dair blynedd yw cyfnod y penodiad yn y lle cyntaf, er bod cyfle i chi gael eich cyfethol i'r Bwrdd am dymor cychwynnol o flwyddyn.

| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Ymrwymiad cadarn i Weledigaeth yr Ymddiriedolaeth | X | |
| Y gallu i feddwl yn strategol ac yn greadigol ac i herio cynigion gyda meddwl rhesymegol clir | X | |
| Deall rôl llywodraethu mewn sefydliad a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm â meysydd arbenigedd gwahanol | X | |
| Integriti personol a gweithredol | X | |
| Dealltwriaeth ac angerdd dros ddod â bywyd gwyllt yn ôl a datrysiadau naturio | X | |
| Ymrwymiad cadarn a gallu i gynrychioli, ymgysylltu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol | X | |
| Profiad o eiriol dros fyd natur a / neu gymunedau ar lefel strategol | X | |
| Profiad a dealltwriaeth o rôl a chyfrifoldebau Aelod Bwrdd | | X |
| Cyllid Elusen | | X |

# Y Camau Nesaf

Anogir y rhai sy'n dymuno gwneud cais i drafod eu cais yn anffurfiol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, Frances Cattanach, ar 07764 897410 ac wedyn, os ydynt yn dymuno parhau â'u cais, anfon llythyr eglurhaol (dim mwy na 2 dudalen A4) a CV cyfredol i lindsay.thomas@northwaleswildlifetrust.org.uk

Dylai'r ymgeiswyr sicrhau bod eu cais yn nodi sut maent yn bodloni'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ac, yn benodol, eu profiad yn ymwneud â dod â bywyd gwyllt yn ôl a datrysiadau naturiol. Rydym yn gwerthfawrogi profiadau byw yn y meysydd hyn yn gyfartal â chymwysterau proffesiynol. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cael eu ffafrio'n cael eu gwahodd i gyfarfod am gyfweliad.

Mae rhagor o wybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth ar gael ar ein gwefan ni yn www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/beth-rydyn-nin-ei-wneud

Rhif Elusen Gofrestredig: 230772 Rhif Cwmn: 773995



EIRLYS EDWARDS BEHI